Adroddiad ar

Ysgol Llwyn Yr Eos

Campws Llwyn-Yr-Eos
Penparcau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 1SH

Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2026

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant

yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llwyn Yr Eos

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Llwyn Yr Eos |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ceredigion |
| Iaith y darparwr | Saesneg |
| Categori'r ysgol yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg | |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | * |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 242 |
| Disgyblion o oed ysgol statudol | 184 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 28 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector cynradd yw 21.7%) | 43.1% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector cynradd yw 9.2%) | 26.6% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 11.4% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 2.7% |
| Partner arweiniol mewn addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |

| | |
|---|---|
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2003 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/02/2019 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 15/06/2026 |

Cymerwyd y data a grybwyllwyd o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion diweddaraf sydd ar gael. Gallai'r ffigurau hyn fod ychydig yn wahanol i'r rhai a welwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Fy Ysgol Leol Llywodraeth Cymru, trwy'r ddolen isod: [fyysgolleol.llyw.cymru](fyysgolleol.llyw.cymru)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio'r disgyblion hynny sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol.

## Crynodeb

Mae ethos gofalgar a chynhwysol wrth graidd Ysgol Llwyn yr Eos. Mae’r ysgol yn darparu amgylchedd dwyieithog croesawgar lle mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a’u cefnogi, a lle mae eu lles yn cael ei flaenoriaethu’n llwyddiannus. Mae gan arweinwyr weledigaeth glir ac maent yn hyrwyddo ymdeimlad cryf o gymuned, gan sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da dros gyfnod.

Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw’r perthnasoedd gwaith cefnogol rhwng staff a disgyblion. Mae staff yn adnabod disgyblion yn dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o’u hanghenion emosiynol a’u hanghenion dysgu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, cydweithio ac yn dangos parch am safbwyntiau a theimladau pobl eraill. Mae disgyblion hefyd yn elwa ar ystod eang o gyfleoedd arwain sy’n eu helpu i ddatblygu medrau pwysig, yn cynnwys cyfathrebu, gwaith tîm a chyfrifoldeb.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu ysgogol sy’n adlewyrchu cyd-destun yr ysgol a’r gymuned yn llwyddiannus. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau am beth maent yn ei ddysgu, a sut. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau’n diwallu anghenion disgyblion yn dda, er nad yw tasgau dysgu bob amser yn darparu digon o her i ychydig o ddisgyblion.

Mae’r ysgol yn hyrwyddo’r Gymraeg a’i diwylliant yn hynod effeithiol. Mae staff yn modelu’r Gymraeg yn gyson ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion glywed, ymarfer a defnyddio’r iaith mewn sefyllfaoedd ystyrlon. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau siarad, darllen ac ysgrifennu yn dda yn y ffrydiau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, fel ei gilydd. Maent yn darllen yn hyderus, yn mwynhau llyfrau ac yn ysgrifennu’n bwrpasol ar draws ystod o genres ar draws y cwricwlwm. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas mewn mathemateg ac mae’r rhan fwyaf ohonynt yn datblygu medrau digidol cryf sy’n cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Yn aml, mae adborth llafar yn helpu disgyblion i ddeall pa mor dda y maent yn gwneud, ond nad yw adborth ysgrifenedig yn nodi’n gyson y camau nesaf mewn dysgu nac yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wella’u gwaith.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae staff, yn cynnwys y rhai sy’n gweithio o fewn pedwar dosbarth canolfan adnoddau’r ysgol, yn darparu cymorth sydd wedi’i deilwro’n ofalus sy’n helpu’r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn unigol.

Mae arweinwyr, staff a llywodraethwyr yn gweithio gyda’i gilydd yn bwrpasol i gefnogi gwelliant ac yn gwneud defnydd priodol o dystiolaeth i nodi blaenoriaethau. Mae gwaith yr

ysgol i wella presenoldeb yn cael effaith gadarnhaol, ar y cyfan, er bod presenoldeb ychydig o ddisgyblion, gan gynnwys rhai disgyblion o aelwydydd incwm isel, yn rhy isel o hyd.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:

A1 Sicrhau bod gweithgareddau dysgu yn herio pob un o'r disgyblion yn gyson

A2 Sicrhau bod adborth yn cynorthwyo disgyblion i wella'u gwaith yn effeithiol

A3 Gwella presenoldeb disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae Ysgol Llwyn yr Eos yn ysgol hapus ac anogol sy'n darparu amgylchedd dwyieithog croesawgar a chefnogol lle mae llawer o ddisgyblion yn ffynnu ac yn gwneud cynnydd da dros gyfnod. Mae arweinwyr yn cyfleu gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol sydd wedi'i seilio ar ddarparu 'cyfle, cyfrifoldeb a chymuned' o fewn profiadau dysgu cyfoethog sy'n hygyrch, yn deg ac yn gynhwysol i bawb. Mae ffocws clir ar hyrwyddo lles disgyblion a sicrhau bod eu hanghenion emosiynol yn cael eu cefnogi'n dda. Caiff y weledigaeth hon ei rhannu'n bwrpasol â disgyblion, staff a rhieni.

Caiff arweinwyr eu cefnogi gan dîm hynod ymroddgar o staff. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn gweithio'n ddiwyd i hyrwyddo lles disgyblion a chefnogi eu cynnydd. Mae staff yn defnyddio ystod addas o strategaethau i hyrwyddo ymddygiadau cadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol ac yn ymddwyn yn dda wrth weithio a chwarae. Mae'r ysgol yn darparu ymagwedd gynhwysol at ddatblygu ymwybyddiaeth ysbrydol, foesol, gymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Er enghraifft, mae gwiriadau staff yn annog disgyblion i fyfyrio ar eu gweithredoedd a'u hemosiynau, sy'n datblygu gwydnwch ac annibyniaeth a dealltwriaeth o'u rhwymedigaethau tuag at ei gilydd. Un o gryfderau nodedig yr ysgol yw'r perthnasoedd gwaith hynod effeithiol y mae staff yn eu datblygu gyda disgyblion.

### Ciplun 1: Creu'r amodau i ddisgyblion ymgysylltu, dysgu a ffynnu

Mae staff yn adnabod eu disgyblion yn eithriadol o dda ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'u hanghenion emosiynol a lles unigol. Trwy drefniadau pontio cadarn, prosesau asesu cynnar, gwiriadau rheolaidd a deialog broffesiynol bwrpasol, mae staff yn nodi rhwystrau rhag dysgu yn brydlon ac yn darparu cymorth wedi ei teilwra, sy'n diwallu anghenion disgyblion yn dda. Mae partneriaethau cryf â rhieni a gofalwyr yn sicrhau bod staff yn gallu ymateb yn sensitif i heriau sy'n dod i'r amlwg. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael cymorth da, ac yn dangos agweddau canmoladwy tuag at eu dysgu. Mae disgyblion yn datblygu empathi, yn cydweithio'n dda â disgyblion eraill ac yn dangos parch at safbwyntiau a theimladau eu cyfoedion.

Mae athrawon yn darparu profiadau dysgu symbylol a diddorol sy'n ystyried natur a chyd-destun yr ysgol a'i chymuned yn llwyddiannus. Mae hyn, yn ei dro, yn hyrwyddo ymdeimlad disgyblion o berthyn i'w hardal leol yn bwrpasol. Mae athrawon yn sicrhau bod disgyblion yn elwa ar ystod addas o gyfleoedd i ddylanwadu ar yr hyn maent yn ei ddysgu, a sut. Mae hyn yn sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig am eu gweithgareddau ac yn ymgysylltu'n dda â'u tasgau.

Mae athrawon yn modelu dysgu yn briodol, ac yn y rhan fwyaf o achosion, maent yn sicrhau bod dysgu disgyblion yn adeiladu ar wybodaeth flaenorol yn addas. Yn gyffredinol, mae gweithgareddau yn diwallu anghenion llawer o ddisgyblion yn addas. Fodd bynnag, nid yw tasgau bob amser yn herio ychydig o ddisgyblion yn ddigon cyson. Mae athrawon a staff cymorth yn defnyddio ystod dda o gwestiynau effeithiol i gadarnhau dealltwriaeth disgyblion ac yn annog disgyblion i ddarparu rhesymau dilys i gyfiawnhau eu hatebion a'u safbwyntiau. Yn yr enghreifftiau gorau, mae staff yn defnyddio adborth llafar yn effeithiol i gynorthwyo disgyblion i nodi beth maent wedi'i wneud yn dda a beth gellid ei wella. Fodd bynnag, nid yw adborth ysgrifenedig bob amser yn nodi'r camau nesaf mewn dysgu yn ddigon cyson ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb trwy wella'u gwaith. Mae staff yn fodelau rôl iaith effeithiol. Mae'r ddarpariaeth i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg a hyrwyddo diwylliant Cymru yn nodwedd nodedig.

### Ciplun 2: Datblygu'r Gymraeg a'i diwylliant

Mae staff yn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson ac yn modelu ei defnydd yn effeithiol mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg, fel ei gilydd. Trwy ddysgu proffesiynol pwrpasol, yn cynnwys cyfranogiad mewn cyrsiau Cymraeg sabothol, mae staff wedi cryfhau eu hyder a'u medrau wrth ddefnyddio'r Gymraeg wrth ryngweithio â disgyblion bob dydd. Yn nosbarthiadau cyfrwng Cymraeg yr ysgol a sefydlwyd yn ddiweddar, mae staff yn cefnogi datblygiad iaith disgyblion yn effeithiol ac yn darparu cyfleoedd gwerthfawr iddynt glywed, ymarfer a defnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau ystyrlon. O ganlyniad, mae dealltwriaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o'r iaith a'u hyder i ddechrau defnyddio'r Gymraeg yn datblygu'n dda. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu Cymraeg ac yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn gwersi ac ystod eang o weithgareddau. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion archwilio a dathlu diwylliant, treftadaeth a thraddodiadau Cymru, sy'n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn a balchder yng Nghymru. Mae'r ethos Cymreig cadarnhaol hwn yn annog disgyblion i ymgysylltu'n hyderus â'r iaith ac yn datblygu gwerthfawrogiad o'u hunaniaeth leol a chenedlaethol.

Mae athrawon yn darparu ystod o gyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion rannu eu meddyliau a'u barn ac mae hyn yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu eu medrau gwrando a siarad yn llwyddiannus. Maent yn siarad yn glir ac yn mynegi eu barn yn hyderus o oedran cynnar.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau darllen yn effeithiol ac mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae staff yn annog a datblygu diwylliant darllen cryf. O ddosbarthiadau'r disgyblion ieuengaf, maent yn sicrhau bod ystod ddifyr o lyfrau ar gael yn rhwydd i ddisgyblion ar draws holl feysydd y ddarpariaeth i feithrin cariad at ddarllen. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 2 yn dechrau defnyddio atalnodi yn

addas i ychwanegu ystyr at yr hyn y maent yn ei ddarllen. Caiff y cynnydd hwn ei gynnal dros gyfnod ac mae disgyblion hŷn yn darllen â mynegiant da ac yn trafod eu hoff awduron a genres yn hyderus.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer datblygu medrau ysgrifennu disgyblion yn effeithiol ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae disgyblion iau yn mwynhau arbrofi ag amrywiaeth o offer i greu marciau ac yn gwneud cynnydd cyflym i ffurfio llythrennau a deall y gwahaniaeth rhwng priflythrennau a llythrennau bach. Mae disgyblion yn ysgrifennu ar draws ystod dda o genres o oedran ifanc ac yn datblygu eu gallu i ysgrifennu'n bwrpasol wrth iddynt symud trwy'r ysgol. Mae disgyblion Blwyddyn 4, er enghraifft, yn arbrofi'n aeddfed â geiriau ac ymadroddion i greu tensiwn ac ansicrwydd wrth agor eu storïau. Mae'r disgyblion hynaf yn ysgrifenwyr hyderus ac yn defnyddio iaith dechnegol gyda manwl gywirdeb cynyddol, er enghraifft wrth iddynt ysgrifennu adroddiadau ffeithiol am sut mae symudiadau platiau tectonig yn gallu achosi daeargrynfeydd.

Dros gyfnod, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas wrth gaffael medrau mathemategol ac yn cymhwyso'u medrau rhifedd yn briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae staff ar draws yr ysgol yn darparu ystod o gyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol, ac mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da sy'n cefnogi eu gwaith ar draws y meysydd dysgu yn dda.

Mae disgyblion yn elwa ar ystod dda o gyfleoedd i ymgymryd â rolau arwain yn yr ysgol. Maent yn mwynhau'r cyfrifoldebau hyn ac yn cymryd eu rolau o ddifrif, yn ogystal â datblygu medrau gwerthfawr fel cyfathrebu, cyfaddawdu a gwaith tîm. Mae'r Criw Cymraeg, er enghraifft, yn hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn bwrpasol.

Ceir trefniadau addas ar gyfer gwerthuso ansawdd darpariaeth yr ysgol a'r effaith ar ddeilliannau disgyblion. O ganlyniad, mae gan arweinwyr ddealltwriaeth briodol o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac maent yn mynd i'r afael â nhw mewn modd amserol, ochr yn ochr â blaenoriaethau cenedlaethol. Mae arweinwyr yn monitro perfformiad staff yn addas ac mae gweithgareddau dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n bwrpasol ar flaenoriaethau'r ysgol yn ogystal ag anghenion datblygiadol unigol staff.

Mae llywodraethwyr yn eiriolwyr cryf dros yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a'i chymuned yn dda ac yn herio a chefnogi arweinwyr yn gadarn. Mae gan yr ysgol drefniadau addas ar gyfer hyrwyddo presenoldeb disgyblion, ac yn gyffredinol, mae'r trefniadau hyn wedi cefnogi gwelliant mewn presenoldeb dros gyfnod. Fodd bynnag, mae presenoldeb ychydig o ddisgyblion, yn cynnwys y rhai o aelwydydd incwm isel, yn rhy isel o hyd.

Mae’r ddarpariaeth i gynorthwyo disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), gan gynnwys ym mhedwar dosbarth y ganolfan adnoddau sydd wedi’u lleoli yn yr ysgol, yn gryf. Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o ystod eang o anghenion emosiynol ac addysgol disgyblion ac maent yn darparu rhaglenni cymorth wedi ei teilwra, yn ôl yr angen. Mae’r rhain yn helpu sicrhau bod y rhan fwyaf o ddisgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd cryf o’u mannau cychwyn unigol. Mae perthnasoedd effeithiol â rhieni, gofalwyr ac ystod eang o staff cymorth asiantaethau allanol yn cynorthwyo staff i adolygu cynnydd disfyblion yn rheolaidd ac addasu darpariaeth, lle bo’n briodol.

Mae’r ysgol yn datblygu cysylltiadau cryf â’r gymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn gweithio gydag amrywiaeth o asiantaethau i wneud gwelliannau amgylcheddol yn yr ardal leol. Mae hyn yn cryfhau ymdeimlad disgyblion o berthyn i’r gymuned ac yn datblygu gwerthoedd pwysig fel parch am eu hardal leol.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Codwyd pryder ynghylch rheoli’r safle yn ystod yr arolygiad, ac mae’r awdurdod lleol wedi cael gwybod.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, yn cynnwys defnyddio’r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, mae arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni / gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon a'r corff llywodraethol trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, mae arolygwyr fel arfer:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni / gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol (lle bo hynny'n briodol) ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion, lle bo'n briodol
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol, lle bo'n briodol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, mae Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 17/08/2026